Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
Swydd-ddisgrifiad

| | |
|---|---|
| Teitl y swydd | Swyddog Cydymffurfedd Iechyd a Diogelwch |
| Adran | Gweithrediadau |
| Yn adrodd i | Rheolwr Cyfleusterau a Phrosiectau Cyfalaf |
| DBS yn ofynnol | Sylfaenol |
| Y Math o Gontract | Parhaol |
| Oriau | Rhan-amser – 22.5 awr yr wythnos |
| Cyflog | £26,000 y flwyddyn pro rata |
| Lefel y Gymraeg sy'n Ofynnol | Dymunol (Ysgrifenedig a Llafar) |

## Gwybodaeth am yr Ardd

Mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru (GFGC), a sefydlwyd ym mis Mai 2000, yn elusen gofrestredig ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant sy'n ymroddedig i wyddor planhigion, cadwraeth, cynaliadwyedd, addysg, a threftadaeth ddiwylliannol Cymru.

Fel un o brif atyniadau i ymwelwyr Cymru, mae'n croesawu dros 214,000 o ymwelwyr bob blwyddyn, ac mae'n cynnwys y Tŷ Gwydr Mawr sy'n adnabyddus ar draws y byd, gwarchodfa natur genedlaethol, a fferm organig. Gyda thîm o oddeutu 100 o staff yn ystod y cyfnod prysuraf o'r flwyddyn, cymorth hyd at 250 o wirfoddolwyr sy'n cyfrannu dros 30,000 o oriau gwirfoddolwyr bob blwyddyn, a chymuned fywiog o 11,000 o aelodau, mae'r Ardd yn cynhyrchu gwerth tua £4 miliwn ar ffurf incwm blynyddol.

## Disgrifiad o'r Rôl

Mae'r Swyddog Cydymffurfedd Iechyd a Diogelwch yn gyfrifol am arwain y gwaith dydd i ddydd o reoli cydymffurfedd gwaith iechyd, diogelwch a statudol ar draws Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.

Bydd deiliad y swydd yn sicrhau bod y sefydliad yn cyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol trwy gyfrwng trefniadau rheoli cydymffurfedd effeithiol, polisïau a gweithdrefnau cadarn, gweithgarwch cadw cofnodion cynhwysfawr a gweithredu systemau sy'n cynnig sicrwydd i'r Bwrdd, uwch-reolwyr a chyrff rheoliadol.

Bydd yn gweithio ar draws ystad amrywiol yr Ardd, gan gynnwys yr atyniadau i ymwelwyr, gweithrediadau garddwriaethol, labordai, casgliadau planhigion, arlwyo, manwerthu, swyddfeydd, gweithdai, ystadau, y tirlun a digwyddiadau. Bydd y rôl yn cydlynu archwiliadau statudol, yn monitro cydymffurfedd, yn cadw cofnodion manwl ac yn cynorthwyo rheolwyr i weithredu arferion gwaith diogel.

Mae sicrhau bod gwiriadau rheoliadol, archwiliadau, gwaith gwasanaethu, gwaith profi, gwaith ardystio, asesiadau risg a dogfennaeth statudol yn cael eu cwblhau mewn pryd, yn cael eu cofnodi'n fanwl a'u bod ar gael i'w harchwilio, yn ffocws allweddol ar gyfer y rôl.

| Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau | |
|---|---|
| 1 | **Rheoli Iechyd a Diogelwch**<br><br>• Cyflawni rôl unigolyn cymwys y sefydliad ar gyfer materion iechyd a diogelwch, gan gynnig cyngor ac arweiniad i reolwyr a staff.<br>• Datblygu, gweithredu ac adolygu polisïau, gweithdrefnau a Systemau Gwaith Diogel Iechyd a Diogelwch.<br>• Hyrwyddo diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol a rhagweithiol ar draws y sefydliad.<br>• Monitro cydymffurfedd â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y gwaith ac ati 1974 a deddfwriaeth gysylltiedig.<br>• Paratoi adroddiadau a diweddariadau cydymffurfedd ar gyfer y Rheolwr Cyfleusterau a Phrosiectau Cyfalaf, yr Uwch-dîm Arwain a'r Bwrdd yn ôl y gofyn. |
| 2 | **Rheoli Cydymffurfedd**<br><br>Cymryd cyfrifoldeb dros fonitro a chydlynu cydymffurfedd statudol ar draws y sefydliad, gan gynnwys cadw cofnodion a sicrhau bod archwiliadau a gwaith gwasanaethu yn cael ei gwblhau o fewn amserlenni gofynnol.<br><br>Mae'r meysydd yn cynnwys:<br><br>• Diogelwch Tân<br>• Rheoli Asbestos<br>• Rheoli Legionella<br>• Rheoli COSHH<br>• Diogelwch trydanol<br>• Diogelwch Nwy<br>• Offer Codi (LOLER)<br>• Offer Gwaith (PUWER)<br>• Systemau Pwysedd<br>• Goleuadau argyfwng<br>• Systemau Larwm Tân<br>• Profi Dyfeisiau Cludadwy (PAT)<br>• Profi Gosodiadau Trydanol Gosodedig<br>• Hylendid Dŵr<br>• Archwiliadau yn y Gweithle<br>• Darpariaeth Cymorth Cyntaf<br>• Asesiadau o Gyfarpar Sgriniau Arddangos<br>• Cydymffurfedd Contractwyr<br>• Diogelwch Ymwelwyr<br>• Diogelwch Digwyddiadau |

| | |
|---|---|
| | • Archwiliadau Lle Chwarae neu Offer Cyhoeddus (pan fo hynny'n berthnasol)<br>• Archwiliadau Cronfeydd Dŵr<br><br>Cynnal calendr cydymffurfedd er mwyn sicrhau na fethir cynnal archwiliadau statudol, gwaith gwasanaethu na gwaith ardystio fyth. |
| 3 | Rheoli Risgiau<br><br>• Cydlynu'r gwaith o gwblhau ac adolygu asesiadau risg sefydliadol.<br>• Cynorthwyo rheolwyr i nodi peryglon a gweithredu mesurau rheoli addas.<br>• Rheoli canllawiau a thempledi asesiadau risg.<br>• Monitro camau i'w cymryd yn dilyn archwiliadau ac arolygiadau.<br>• Cynnal cofrestrau risg sefydliadol sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch |
| 4 | Systemau Cydymffurfedd a Rheoli Cofnodion<br><br>Datblygu a chynnal systemau cadarn ar gyfer cofnodi a dangos tystiolaeth o gydymffurfedd.<br><br>Mae'r cyfrifoldebau'n cynnwys:<br><br>• Cynnal cofnodion cydymffurfedd electronig ac ar bapur.<br>• Cofnodi ardystiadau a dyddiadau archwilio statudol.<br>• Monitro dyddiadau dod i ben a gofynion adnewyddu.<br>• Cynnal cofnodion cymhwysedd contractwyr.<br>• Sicrhau bod yr holl ddogfennaeth cydymffurfedd yn hygyrch ac yn barod i'w harchwilio.<br>• Creu dangosfyrddau cydymffurfedd ac adroddiadau rheoli.<br>• Cynorthwyo gydag archwiliadau mewnol ac allanol.<br>• Cynnal trefniadau rheoli dogfennau ar gyfer gweithdrefnau iechyd a diogelwch. |
| 5 | Diogelwch Rhag Tân<br><br>• Cydlynu trefniadau Rheoli Diogelwch Tân y sefydliad.<br>• Sicrhau bod Asesiadau Risg Tân yn cael eu hadolygu a bod camau yn cael eu cymryd.<br>• Cydlynu gwaith gwasanaethu a phrofi larymau tân.<br>• Monitro archwiliadau goleuadau argyfwng.<br>• Trefnu ymarferion gadael os bydd tân.<br>• Sicrhau bod Wardeniaid Tân yn cael hyfforddiant priodol.<br>• Cynnal cofnodion diogelwch tân. |

| | |
|---|---|
| 6 | **Rheoli Contractwyr**<br><br>• Cynorthwyo rheolwyr a gwaith caffael wrth sicrhau bod contractwyr yn cydymffurfio â safonau sefydliadol.<br>• Adolygu Asesiadau Risg a Datganiadau Dull (RAMS).<br>• Monitro dogfennaeth cymhwysedd contractwyr.<br>• Cydlynu hawlenni gweithio yn ôl y gofyn.<br>• Cynnal ymweliadau monitro contractwyr. |
| 7 | **Ymchwilio i Ddigwyddiadau**<br><br>• Ymchwilio i ddamweiniau, digwyddiadau, damweiniau fu bron â digwydd ac arsylwadau, pan fo hynny'n berthnasol.<br>• Nodi gwraidd y broblem ac argymell gwelliannau.<br>• Cynorthwyo wrth gynnal systemau adrodd am ddamweiniau.<br>• Dadansoddi tueddiadau a pharatoi adroddiadau.<br>• Adrodd am ddigwyddiadau i'r Pennaeth Cyfleusterau, Asedau a Phrosiectau Cyfalaf pan fydd gofyn gwneud hynny dan RIDDOR. |
| 8 | **Archwilio ac Arolygu**<br><br>• Cynnal archwiliadau rheolaidd ar draws pob adran.<br>• Cynnal archwiliadau cydymffurfedd wedi'u cynllunio.<br>• Monitro camau cywirol.<br>• Paratoi adrannau ar gyfer archwiliadau allanol gan reoleiddwyr ac yswirwyr. |
| 9 | **Hyfforddiant a Chymhwysedd**<br><br>• Cydlynu hyfforddiant iechyd a diogelwch gorfodol.<br>• Darparu cynnwys sefydlu iechyd a diogelwch.<br>• Cynnal cofnodion hyfforddiant.<br>• Nodi bylchau o ran cymhwysedd ar draws adrannau.<br>• Hyrwyddo ymgyrchoedd ymwybyddiaeth o iechyd a diogelwch. |
| 10 | **Cynllunio at argyfwng**<br><br>• Cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu gweithdrefnau ymateb i argyfwng.<br>• Cynorthwyo wrth gynllunio parhad busnes.<br>• Cymryd rhan mewn ymarferion brys.<br>• Adolygu trefniadau brys yn dilyn digwyddiadau. |

| Manyleb y Person | | | Dull Asesu | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Hanfodol | Dymunol | Ffurflen gais | Cyfweliad | Asesiad |
| **Cymwysterau** | | | | | |
| • Tystysgrif Gyffredinol Genedlaethol NEBOSH (neu gymhwyster cyfatebol) | X | | X | | |
| • Aelodaeth o IOSH | | X | X | | |
| • Trwydded Yrru lawn y DU | X | | X | | |
| **Profiad, gwybodaeth, medr a gallu** | | | | | |
| • Rheolaeth iechyd a diogelwch mewn amgylchedd gweithredol cymhleth. | X | | | X | |
| • Rheoli rhaglenni cydymffurfedd statudol. | X | | | X | |
| • Polisïau a gweithdrefnau sefydliadol. | | X | | X | |
| • Cynnal archwiliadau ac arolygiadau yn y gweithle. | X | | | X | |
| • Ymchwilio i Ddamweiniau. | | X | | X | |
| • Rheoli cofnodion cydymffurfedd a systemau adrodd. | X | | | X | |
| • Cysylltu â phartneriaid allanol, contractwyr a chyrff rheoleiddio. | | X | | X | |
| • Profiad o gydlynu ffrydiau gwaith cydymffurfedd lluosog. | X | | | X | |
| • Diploma NEBOSH neu gymhwyster cyfatebol. | | X | X | | |
| • Cymhwyster Diogelwch Tân. | | X | X | | |
| • Hyfforddiant Unigolyn sy'n Gyfrifol am Legionella. | X | | X | | |
| • Ymwybyddiaeth Deiliad Dyletswydd Asbestos. | X | | | X | |
| • Profiad Rheolaeth Amgylcheddol. | | X | X | | |
| • Profiad mewn elusen, atyniad i ymwelwyr, ystad, treftadaeth neu sefydliad yn y sector cyhoeddus. | X | | X | | |
| • Gwybodaeth am systemau rheoli ISO 45001. | | X | | X | |
| • Profiad o ddefnyddio meddalwedd rheoli cydymffurfedd digidol. | | X | X | | |
| **Rhinweddau personol** | | | | | |
| • Sgiliau trefnu ardderchog. | X | | | X | |
| • Y gallu i roi sylw neilltuol i fanylion | X | | | X | |
| • Gallu cadarn i weinyddu a rheoli cofnodion. | X | | | X | |
| • Yn gallu blaenoriaethu nifer o derfynau amser statudol. | | X | | X<br>X | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| • Sgiliau cyfathrebu rhagorol.<br>• Sgiliau dadansoddol cadarn.<br>• Yn gymwys mewn systemau cydymffurfedd digidol a Microsoft Office.<br>• Y gallu i ddylanwadu ar bob lefel. | X<br>X<br>X | X | | X<br>X<br>X<br>X | |
| Gofynion ychwanegol<br>Y gallu i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg (ar lafar ac yn ysgrifenedig) | | X | | | |

Canllawiau Ymgeisio

Rydym yn awyddus i ddeall eich diddordeb gwirioneddol yn y cyfle hwn, ac fe’ch anogwn i sicrhau bod eich cais yn adlewyrchu eich profiad, eich sgiliau a’ch arddull cyfathrebu. Dylai ceisiadau gynnig enghreifftiau penodol sy’n dangos eich addasrwydd ar gyfer y rôl. Er y gall ymgeiswyr ddewis defnyddio technoleg i gynorthwyo wrth brawfddarllen neu fformatio, gall ceisiadau sy’n dibynnu’n fawr ar gynnwys wedi’i baratoi gan AI ymddangos yn generig ac efallai na fyddant yn cynnig lefel y manylder sy’n ofynnol er mwyn i ni allu asesu eich gwybodaeth, eich profiad a’ch cymwyseddau yn fanwl.
Byddwch cystal â sicrhau mai eich gwaith chi yw’r holl wybodaeth a gyflwynir.

Ni ddefnyddir AI yn rhan o’n proses recriwtio na dethol.

Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na rhai a gyflwynir yn Saesneg.